# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol gynhaliwyd 1 Gorffennaf 2019 am 7.30yh**
**yn Ystafell Berkley, Penyparc**

**Presennol:**
Cyng. Auriol Williams *(Cadeirydd)*
Cyng. Dilwyn Jenkins
Cyng. Matthew Morgan
Cyng. Clive Davies (*aelod lleol o'r Cyngor Sir)*
Cyng. Lloyd Jenkins *(Is Gadeirydd)*
Cyng. Eurig Lloyd
Cyng. Peter Williams
Mrs Melanie Davies (*Clerc*)

1. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Auriol Williams, bawb i gyfarfod mis Gorffennaf. Dymunodd yn dda i'r Cynghorydd Matthew Morgan ar ei fenter newydd yn Aberteifi.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cyng Des Davies, y Cyng. Lyn Jones a'r Cyng. Llinos Price.

3. **Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**
Cynigiwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Peter Williams bod cofnodion mis Mehefin yn gywir.

4. **Datgelu buddiannau personol:** Dim

5. **Materion yn codi:**
(a) **Llwybr gyferbyn â Garej OC Davies, Penyparc:** Rhoddodd y Cyng. Llinos Price wybod cyn y cyfarfod fod y llwybr yn anwastad. Penderfynwyd bod y Clerc yn mynd gyda'r Cyng. Price i weld ble oedd y broblem a gweld ai llwybr cyhoeddus ydoedd ai peidio er mwyn penderfynu a oedd angen cymryd camau.
(b) **Enwi heolydd:** Cododd y Cyng. Auriol Williams nad oedd enwau'n bodoli ar gyfer y ffordd o Benyparc i'r gyffordd â'r Ferwig a Mwnt nac ychwaith rhwng y Capel yn y Ferwig a Heolcwn. Cytunwyd y byddai'n dda o beth cael enwau i'r ffyrdd hyn ac i'r sgwâr lle mae cyffyrdd Penyparc, Heol Mwnt, y Ferwig a Heol y Ferwig yn cwrdd. Bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau i Steffan Jones.
(c) **Cynrychiolaeth yr Awdurdodau Llai ar Gyrff Llywodraethol:** Angen enwebu cynrychiolydd newydd o'r Cyngor i Fwrdd Llywodraethol Ysgol Penyparc gan fod cyfnod y Cyng. Eurig Lloyd wedi dod i ben. Cynigiwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Lloyd Jenkins fod y Cyng. Eurig Lloyd yn cael ei enwebu o'r newydd.
(d) **Dŵr Cymru –** cwyn wedi dod i law gan fod tir Nyth y Wennol ym Mhenyparc wedi mynd dan ddŵr am y trydydd gwaith eleni yn dilyn piben wedi byrstio. Clerc i ysgrifennu llythyr at Dŵr Cymru i fynegi'r gŵyn a gofyn am ymateb.
(e) **Dronau –** Soniwyd bod drôn wedi hedfan uwchben Ysgol Penyparc yn fuan wedi'r mabolgampau a hofrennydd yn ystod y mabolgampau. Bydd y Cyng. Clive Davies yn gweithio gyda'r Pennaeth newydd pan fydd yn dechrau ar ei swydd.
(f) **Piler wrth yr olygfan yng Ngwbert -** mae piler a phlac ar ben ucha'r dir wrth yr olygfan wedi'i ddifrodi yn dilyn damwain car. Cynghorwyd mai'r Cyngor Sir sy'n gyfrifol am hwn a bydd y Clerc yn rhoi gwybod i'r swyddog priodol.

6. **Ceisiadau am Gymorth Ariannol**
I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

7. **Cynllunio:**

| *Rhif y Cais* | *Cyfeiriad a Bwriad* | *Sylwadau'r Cyngor* |
|---|---|---|
| | | |

8. **Materion Ariannol**

**Biliau wedi eu talu:**

| | | |
|---|---|---|
| Cyflog y Clerc (Mehefin 2019) | 101786 | £308.97 |
| Costau'r Clerc (Mehefin 2019) | 101787 | £40.95 |
| Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Mehefin 2019) | 101788 | £77.00 |
| Mr John Morris (Torri porfa am 6 mis) | 101789 | £513.60 |
| SWALEC | 101790 | £26.28 |

Cynigiwyd gan y Cyng. Eurig Lloyd ac eiliwyd gan y Cyng. Lloyd Jenkins bod y biliau uchod yn cael eu talu.

**Materion ariannol eraill:**
Dosbarthwyd adroddiad ariannol y cyfrifon am dri mis hyd at 30 Mehefin i'r aelodau yn y cyfarfod.

## 9. Gohebiaeth:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9 | Ambiwlans Awyr Cymru | Llythyr o ddiolch am y grant | Nodwyd |
| 10 | Prif Weithredwr Gwylwyr y Glannau | Llythyr yn egluro'u bwriad ar gyfer yr orsaf yng Ngwbert. | Cyngor wedi gwneud popeth posibl. Arweiniodd hyn at sôn am yr angen am ddiffibriliwr ym Mwnt yn dilyn digwyddiad diweddar ar y traeth. Clerc i edrych i mewn i brisiau ac ati |
| 11 | Ken Griffiths, Archwilydd | Llythyr yn derbyn gwahoddiad y Cyngor i fod yn Archwilydd | Nodwyd |

## 10. Materion Eraill:

(a) **Canolfan Iechyd Aberteifi:** Yn dilyn ymateb y Ganolfan Iechyd, penderfynwyd anfon copi o'r llythyr at Jill Patterson ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda.

(b) **Sedd wag am Gynghorydd:** Hysbyseb wedi'i gyflwyno i'r Gambo a gobeithir cael enw swyddogol erbyn mis Medi

(c) **Bryn Teg:** Roedd y Cyng. Clive Davies wedi anfon llythyr at y perchennog. Atebodd y perchennog ar lafar ei fod yn hapus i'r Cyngor roi'r gofeb yn ôl. Penderfynwyd ysgrifennu llythyr at Mr Bell gyda'r bwriad o benodi contractwr i wneud y gwaith. Clerc i gysylltu â'r contractwr i gadarnhau amcanbris.

(d) **Cais Cynllunio A190149:** Wedi'i basio gydag amod bod ffens uchder priodol yn cael ei godi.

(e) **Porth y Gymuned:** Cytunwyd i Carys Owens ddod ym mis Medi am 7 o'r gloch.

(f) **Bwrdd Iechyd Hywel Dda:** Dosbarthwyd deunydd i'r Cynghorwyr mewn perthynas â'r Uned Trawma Dros Dro yn Ysbyty Glangwili.

(g) **Goleuadau:** Cytunwyd i roi arwydd yn hysbysfyrddau'r Ferwig a Phenyparc er mwyn i drigolion yr ardal gael manylion cyswllt i hysbysu ynghylch goleuadau stryd diffygiol.

## 11. Adroddiad y Cynghorydd Sir, y Cyng. Clive Davies

(a) **Clun Bach:** Cais cynllunio wedi'i gymeradwyo.

(b) **Cais 190255:** Gwrthwynebiad wedi dod i law yn nodi bod y cais o flaen tŷ'r preswylydd.

(c) **Cynllun Lle**: Cafodd gyfarfod gyda'r ymgynghorwyr i drafod hyn. Angen dwyn yr holiaduron at ei gilydd i'w dadansoddi.

(d) **Llinellau Melyn:** Cyngor wedi datgan nad oes digon o gyfiawnhad o blaid peintio llinellau melyn ym Mhenyparc. Ac ni fydd modd ei drafod tan yr adolygiad nesaf yn 2021.

(e) **Ardal Patch:** Cafwyd cyfarfod â'r Marine Group a chwmni Bay to Remember yn Patch gyda'r gobaith o symud ymlaen â datblygiadau tymor hir i'r ardal. Cafwyd cyfarfod cadarnhaol iawn.

(f) **LoRaWan** – rhoddwyd esboniad o ddatblygiadau'r prosiect hwn yn Llechryd a gofynnwyd am syniadau posibl o sut gallai fod o fudd i Benyparc o bosibl. Cafwyd cyfarfod rhwng y Cyng. Clive Davies, Richard (myfyriwr) a swyddog o Lywodraeth Cymru i drafod y prosiect hwn. Bydd yn cwrdd â'r heddlu ac Arwyn o'r Cyngor Sir cyn hir i drafod datblygiadau.

(g) **Dŵr Cymru** – Soniodd am broblem yn Ystafell Berkley yn ddiweddar lle cafwyd peipen yn byrstio. Roedd y broblem wedi deillio o'r plot drws nesaf.

(h) **LDP** – gofynnodd a oedd unrhyw un wedi ystyried safleoedd cais am y Cynllun Datblygu Lleol. Angen trafod hyn ymhellach. Bydd angen cael darlun llawn o'r ardal i gyd erbyn mis Medi

(i) **Argyfwng Hinsawdd** - Cyngor Sir wedi datgan Argyfwng Hinsawdd. Mae ganddo gynllun CO2 niwtral i'w gyflawni erbyn 2023. Bydd hyn yn golygu annog mwy o ynni adnewyddadwy, ceir electrig a gwell effeithlonrwydd ynni mewn ysgolion.

**12. Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 2 Medi 2019 yn Hen Ysgol y Ferwig am 7.30 o'r gloch.

**Cyfarfodydd y Cyngor am 2019**

7 Hydref (YB) 5 Tachwedd (F) 5 Rhagfyr (YB)

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynyddol

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

**Minutes of the Ordinary Meeting held on 1 July, 2019 at 7.30pm**
**at Ystafell Berkley, Penyparc**

**Present**

| | |
|---|---|
| Cllr Auriol Williams *(Chairperson)* | Cllr Lloyd Jenkins *(Vice-Chair)* |
| Cllr Dilwyn Jenkins | Cllr Eurig Lloyd |
| Cllr Peter Williams | Cllr Matthew Morgan |
| Cllr Clive Davies (*Local member of the County Council*) | Mrs Melanie Davies (*Clerk*) |

1. **Chairperson's welcome.** The Chairperson, Cllr Auriol Williams, welcomed everyone to the July meeting. She wished Councillor Matthew Morgan well on his new venture.

2. **Apologies for absence:** Cllr Des Davies, Cllr. Lyn Jones and Cllr. Llinos Price

3. **Minutes of the previous meeting.**
It was proposed by Cllr Dilwyn Jenkins and seconded by Cllr Peter Williams that the minutes of the June meeting be recorded as correct.

4. **Declaration of personal interests:** None

5. **Matters arising:**
(a) **Path near to OC Davies Garage, Penyparc:** Cllr Llinos Price had informed the Council prior to the meeting that the path is uneven. It was decided that the Clerk would meet Cllr Price to see where the problem was and clarify whether it was a public footpath prior to deciding what steps to take.
(b) **Naming roads:** Cllr Auriol Williams raised the issue that no names existed for the road from Penyparc to the junction with Ferwig and Mwnt, nor between the Chapel in Ferwig and Heolcwn. It was agreed that it would be good to name these roads and also the square where the junctions for Penyparc, Mwnt Road, Ferwig and Verwig Road meet. The clerk will make enquiries with Steffan Jones at the County Council.
(c) **Representation of the Minor Authorities on Government Bodies:** A new representative needs to be nominated for Ysgol Penyparc's Government Body as Cllr Eurig Lloyd's term has come to an end. Cllr Dilwyn Jenkins proposed that Cllr Eurig Lloyd be re-instated, this was seconded by Cllr Lloyd Jenkins.
(d) **Welsh Water:** a complaint has been received that the land at Nyth y Wennol in Penyparc has been flooded for the third time this year following a burst pipe. The clerk will write to Welsh Water to communicate the complaint and ask for a response.
(e) **Drones:** It was mentioned that drone flew above Ysgol Penyparc soon after the sports day and a helicopter flew over during the sports day. Cllr Clive Davies will work with the new Headteacher when he begins his post.
(f) **Pillar near to the Gwbert viewpoint:** a pillar and plaque at the top of the land near the viewpoint has been damaged following a car accident. It was advised that the County Council is responsible for this and the Clerk will inform the appropriate officer.

6. **Requests for financial support.**
To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

7. **Planning:**

| *Application No.* | *Address and Purpose* | *Community Council's Observations* |
|---|---|---|
| | | |

8. **Financial Matters.**
**Bills paid:**

| | | |
|---|---|---|
| Clerk's salary (June 2019) | 101786 | £308.97 |
| Clerk's Expenses (June 2019) | 101787 | £40.95 |
| HM Revenue & Customs (Clerk's Income Tax June 2019) | 101788 | £77.00 |
| Mr John Morris (Grass cutting for 6 months) | 101789 | £513.60 |

| | | |
|---|---|---|
| SWALEC | 101790 | £26.28 |

It was proposed by Cllr Eurig Lloyd and seconded by Cllr Lloyd Jenkins that the above bills be paid.

**Other Financial Matters:**

The financial report for the three months up to 30 June, 2019 was distributed to all members at the meeting.

## 9. Correspondence:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9 | Wales Air Ambulance | Letter thanking the Council for the grant. | Noted |
| 10 | Chief Executive of the Coastguards | Letter clarifying their intention for the station at Gwbert | Council has done everything possible. This led to a discussion regarding the need for a defibrillator in Mwnt following a recent incident on the beach. Clerk will look into prices etc. |
| 20 | Ken Griffiths, Auditor | Letter accepting the invitation to be the Council's Auditor. | Noted |

## 10. Other Matters:

(a) **Cardigan Health Centre:** Following the Health Centre's response, a copy of the letter to the Health Centre will be sent to Jill Patterson at Hywel Dda Health Board.

(b) **Councillor Vacancy:** Advertisement has been submitted to Y Gambo and an official new name is hoped for by September.

(c) **Bryn Teg:** Cllr Clive Davies had sent a letter to the owner. The owner responded verbally stating that he was happy for the Council to put the monument back in place. It was decided that a letter would be written to Mr Bell with the intention of appointing a contractor to do the work. Clerk will contact the contractor to confirm a quote.

(d) **Planning Application A190149:** This has been passed on the condition that a fence of the appropriate height is raised.

(e) **Porth y Gymuned:** It was agreed that Carys Owen would attend the September meeting at 7pm.

(f) **Hywel Dda Health Board:** Reading material has been distributed to Councillors with regard to the Interim Trauma Unit in Glangwili Hospital.

(g) **Streetlights:** It was agreed that a sign would be placed on Ferwig and Penyparc noticeboards so that the area's inhabitants know where to contact regarding deficient street lights.

## 11. County Councillor's Report – Cllr Clive Davies:

(a) **Clun Bach:** Application plan has been approved.

(b) **Application 190255:** An objection has been received noting that the site applied for is in front of the objector's house.

(c) **Place Plans:** Had a meeting with consultants to discuss this. Questionnaires need to be collated for analysis.

(d) **Yellow Lines:** The Council has stated that there isn't enough justification for painting yellow lines in Penyparc. And it won't be possible to discuss it until 2021.

(e) **Patch Area:** A meeting was held with the marine Group and Bay to Remember in Patch in the hope of moving forward to long term developments in the area. A very positive meeting was held.

(f) **LoRaWan:** An explanation was provided as to this project's development in Llechryd and the Council was asked for possible ideas on how it could benefit Penyparc. A meeting was held between Cllr Clive Davies, Richard (student) and an officer from Welsh Government to discuss this project. He will be meeting with police and Arwyn from the County Council soon to discuss developments.

(g) **Welsh Water:** He mentioned the recent problem of a burst pipe at Ystafell Berkley. The problem started on the plot next door.

(h) **LDP:** he asked had anyone considered application sites for the Local Development Plan. This needs to be discussed further. A full picture of the whole area will be needed by September.

(i) **Climate Emergency:** The County Council has declared a Climate Emergency. It has a CO2 neutral plan to achieve by 2023. This will mean encouraging more renewable energy, electric cars and better energy efficiency in schools.

**12. Date of next meeting:** 2 September 2019 at Hen Ysgol y Ferwig

**Dates of Council Meetings for 2019:**

7 October (YB) 4 November (F) 2 December (YB)

*Denotes:* F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = Annual General Meeting